Adroddiad ar

# Ysgol Y Felin

Ynyswen
Felinfoel
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA14 8BE

Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Felin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Felin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg Cyfnod Sylfaen. Ffrwd Gymraeg a Saesneg yn CA2 |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 218 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 192 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 32.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 22.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 3.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 4.2% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2010 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/09/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Y Felin yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn gosod cyfeiriad clir i'r ysgol. Mae gan staff ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion unigol disgyblion ac maent yn ymateb yn dda i'w lles a'u dysgu. O ganlyniad, mae'r ymdeimlad o barch rhwng y staff a'r disgyblion yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion, yn ystyried eu syniadau am yr hyn maent am ei ddysgu, ac yn eu helpu i ddysgu am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o brofiadau fel rhan o'r ddarpariaeth gynhwysfawr. Maent yn dangos chwilfrydedd ac yn hyderus i ddefnyddio eu medrau mewn cyd-destunau newydd.

Mae disgyblion y Ganolfan yn cymryd rhan gwbl naturiol yng ngweithgareddau'r ysgol mewn amgylchedd gynhwysol. Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei threfnu'n dda sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd mewn medrau.

O oedran cynnar, mae disgyblion yn datblygu annibyniaeth yn dda ac yn dyfalbarhau'n gyson wrth gyflawni tasgau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, digidol, creadigol a chorfforol. Mae medrau gwrando a chyfathrebu'r disgyblion yn gryf ac maent yn trafod eu gwaith yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Mae eu dealltwriaeth fathemategol yn datblygu'n effeithiol.

Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais cryf ar staff yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol buddiol syn galluogi staff i gyfrannu'n effeithiol at wella'r ddarpariaeth dros amser.

Mae gan staff berthynas weithiol gynhyrchiol â'r rhieni a'r gymuned. Maent yn cynnig cymorth sensitif i rieni ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymgysylltu â dysgu eu plant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Parhau i ddatblygu dull cydlynol wrth gynllunio ac addysgu mathemateg er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gydweithio cryf ymhlith staff er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer pob disgybl. Trwy ddisgwyliadau uchel, mae arweinwyr yn gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'Nid da lle gellir gwell', yn llwyddiannus. Mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd cadarn sy'n annog disgyblion i ddatblygu'n  ddysgwyr hyderus ac iach. Mae awyrgylch deuluol gryf yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae staff yn creu amgylchedd lle mae lles disgyblion yn rhan ganolog o waith yr ysgol yn ogystal â chodi safonau. Mae hyn yn arwain disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol a pharchus sy'n barod i lwyddo.

Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm cyfoethog sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae amrediad o brofiadau ysgogol yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Mae hyn yn eu galluogi i ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill ac i ddatblygu dealltwriaeth berthnasol o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Mae arweinwyr yn cysylltu dysgu proffesiynol â blaenoriaethau'r ysgol a rhai cenedlaethol yn effeithiol. Mae staff wedi canolbwyntio ar gryfhau medrau llafar disgyblion er mwyn ymestyn eu geirfa wrth ysgrifennu sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ffurfio llythrennau yn gywir wrth ysgrifennu brawddegau gyda chywirdeb cynyddol. Mae'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod berthnasol o ffurfiau, yn atalnodi'n gywir ac yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio'n hyderus ac yn defnyddio geirfa a phatrymau brawddeg cywir mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Mae agwedd gadarnhaol disgyblion at yr iaith Gymraeg yn elfen nodedig ac mae'r cynnydd a wnânt o'u mannau cychwyn amrywiol yn dda. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn. O oedran cynnar, maent yn datblygu eu hadnabyddiaeth o lythrennau a seiniau yn effeithiol, ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddarllen geiriau cyfarwydd gyda hyder cynyddol. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl ac yn gwneud cynnydd da yn eu darllen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn gwersi mathemateg. Yn ddiweddar, mae staff wedi cyflwyno dull cydlynol ar gyfer cynllunio ac addysgu mathemateg sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth fathemategol  disgyblion. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n  gadarn mewn amrywiaeth o gyd-destunau creadigol. Mae dyfeisiadau amrywiol yn cael eu defnyddio'n hyderus gan ddisgyblion i gofnodi tystiolaeth, fel adnodd i symud y dysgu yn ei flaen ac i sbarduno gwaith y dosbarth. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn creu cronfa ddata yn annibynnol, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol,

maent yn creu gwefan i hybu iechyd a lles. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn hynod effeithiol trwy weithgareddau dylunio, dawns a cherddoriaeth. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn creu gwaith celf effeithiol wrth efelychu arddull arlunwyr enwog a lleol.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau addysgu amrywiol i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth o themâu gwahanol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn holi'r disgyblion yn fedrus gan ofyn cwestiynau sy'n cymell disgyblion i feddwl yn ddwys a chydweithio â'u cyfoedion er mwyn llwyddo. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymwybodol o'u camau nesaf yn eu dysgu ac yn gweithredu ar adborth staff yn gyson er mwyn mireinio a gwella eu gwaith.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi eu lles a'u dysgu ymhellach. Yn y Ganolfan, mae'r staff yn cynllunio'n gelfydd i ddiwallu anghenion dysgu unigol disgyblion. Maent yn defnyddio adnoddau gweledol, arwyddion a symudiadau corfforol i ennyn ymgysylltu disgyblion, yn ogystal â darparu ystod o brofiadau synhwyraidd gwerthfawr i symbylu ymgysylltiad a'u mwynhad mewn dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda. Maent yn cefnogi ei gilydd i oresgyn anawsterau a dyfalbarhau'n ddiwyd. Un o rinweddau nodedig yr ysgol yw'r modd mae disgyblion yn dangos empathi at ei gilydd yn gwbl naturiol o fewn y ddarpariaeth gynhwysol. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus i sicrhau nad yw disgyblion yn cael eu heffeithio gan dlodi. Mae staff yn sicrhau bod pob disgybl yn cael profiadau dysgu sy'n eu herio i ddatblygu eu medrau yn gynyddol adeiladol dros amser.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd hynod fuddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol.

### Ciplun: Datblygu medrau arwain disgyblion drwy waith y cynghorau ysgol

Mae staff yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain ac i ddatblygu medrau sy'n cael effaith fuddiol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ystod o gynghorau amrywiol yn casglu barn eu cyfoedion ac yn arwain ar brosiectau cyffrous sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ethos a diwylliant yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg wedi arwain nifer o weithgareddau Cymraeg, gan cynnwys dewis caneuon yr wythnos, cynllunio a darparu gemau buarth a threfnu disgo tawel ar gyfer eu cyfoedion. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth dda o ddiwylliant cyfoes Cymraeg ac maent yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio eu medrau llafar Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella ac adnabod y camau i'w gweithredu i ddatblygu'r ysgol ymhellach. Er enghraifft, mae cryfhau medrau llafar disgyblion wedi cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy'n hybu a chefnogi datblygiad proffesiynol pob aelod o staff. Yn dilyn cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, mae staff yn darparu gweithgareddau ysgogol yn yr ardaloedd allanol, sy'n meithrin chwilfrydedd a medrau annibynnol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i weithgareddau'r ysgol ac yn darparu cymorth a her briodol i arweinwyr. O ganlyniad, mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae staff yn meithrin partneriaethau cryf â rhieni. Maent yn gwerthfawrogi diweddariadau rheolaidd am ddigwyddiadau o fewn yr ysgol ac yn teimlo'n hyderus i gael sgwrs gyda staff er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryder. Maent yn ymfalchïo fod eu plant yn mynychu'r ysgol gartrefol hon ac yn gwerthfawrogi'r ystod o brofiadau ynghyd â'r gofal sy'n cael ei ddarparu gan y staff.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2026